# YSGOL BRO HYDDGEN
Tel: (01654 70 4200)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk
Gwefan: www.brohyddgen.powys.sch.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.


8 Medi 2020

Annwyl Rieni / Ofalwyr

**Gwirio Trefniadau ar gyfer Cadw Pawb yn Ddiogel ac yn Iach**

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwarchod pawb rhag y feirws a hefyd yn hyrwyddo arferion cadw'n iach ymysg y plant, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech roi sylw i'r canlynol:

**Trefniadau Gollwng a Chasglu Plant ar Ddechrau a Diwedd y Dydd**

- Mae'n bwysig bod pawb yn cadw at yr amseroedd a ddynodwyd ar gyfer pob dosbarth i ollwng plant a'u casglu ar ddiwedd y dydd
    - Rydw i wedi gwneud un newid i'r amserlen hon ar gyfer dosbarth **Celynnen** – gweler isod

| | Cyrraedd/Arrive | Drws/Door | Gadael/Collection |
|---|---|---|---|
| Helygen | 8.45 - 8.55am | Top | 3.15pm |
| Collen | 8.45 - 8.55am | Prif Fynedfa/Main Entrance | 3.15pm |
| Afallen | 8.50 - 9.00am | Top | 3.20pm |
| Masarnen | 8.55 - 9.05am | Prif Fynedfa/Main Entrance | 3.25pm |
| Onnen | 8.50 - 9.00am | Drws Ochr/Side Door | 3.15pm |
| Celynnen | 8.50 - 9.00am | Drws Canol/Centre Door | 3.20pm |
| Bedwen | 9.00 - 9.10am | Drws Canol/Centre Door | 3.25pm |

- Mae'n arbennig o bwysig nad oes gormod o oedolion yn ymgasglu wrth y giât yn rhy fuan
- Un rhiant/ofalwr yn unig i ddylai ddanfon plentyn a chasglu plentyn ar ddiwedd y dydd
- Dylid ceisio cadw pellter cymdeithasol wrth aros am eich plentyn ar ddiwedd y dydd

**Potel Ddŵr a Snac**

- Mae angen i bob plentyn ddod â photel ddŵr gydag ef/hi i'r ysgol – ni ddylai'r botel gynnwys diodydd meddal, *squash* na sudd ffrwythau
- Mae angen i bob plentyn hefyd ddod â snac iach i'r ysgol
    - Ni ddylid anfon bwydydd sy'n llawn halen, braster a siwgwr megis creision a siocled
    - Gofynnwn hefyd i blant dosbarthiadau Onnen, Celynnen a Bedwen i beidio dod â snac sy'n cynnwys cnau

Hyderaf y gallaf ddibynnu arnoch am eich cydweithrediad yn hyn o beth. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi i drafod y materion hyn neu unrhyw fater arall.

Yr eiddoch yn gywir

Haf ap Robert
Pennaeth Cynorthwyol